# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-07-08 (p1): 10 Ebrill 2008**

## Tlodi tanwydd yng Nghymru""

### Diben

Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir i benderfyniad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i wahodd Golwg ar Ynni a'r chwe chwmni cyflenwi ynni mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd i fod yn bresennol yn ystod sesiwn dystiolaeth ar dlodi tanwydd yng Nghymru yn ei gyfarfod ddydd Iau 10 Ebrill.

### Cefndir

Yn ystod trafodaethau anffurfiol ar 28 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor i wahodd Centrica plc, y Gymdeithas Manwerthu Ynni a Golwg ar Ynni i roi tystiolaeth ar lafar ar y strwythur prisio ynni yng Nghymru ddydd Iau 13 Mawrth.

Yn eu hymatebion, gwrthododd Centrica plc y gwahoddiad a dywedodd y Gymdeithas Manwerthu Ynni ei bod yn iawn i'r Gymdeithas Rhwydwerthu Ynni arwain ar y mater hwn. Cafodd gwahoddiad pellach y Cadeirydd i'r Gymdeithas Manwerthu Ynni hefyd ei wrthod. Cytunodd Golwg ar Ynni i ddod i'r cyfarfod, gyda'r cafeat na fyddai ei ganfyddiadau ymchwil diweddaraf ar brisio ynni yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi tan ddiwedd mis Mawrth. Penderfynodd y Cadeirydd y dylai Golwg ar Ynni gael gwahoddiad i gyflwyno'u canfyddiadau diweddaraf yn y dyfodol.

Yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth, ystyriodd y pwyllgor yr ymatebion hyn a chytunodd i gynnal sesiwn dystiolaeth ar dlodi tanwydd yng Nghymru yn ei gyfarfod nesaf ddydd Iau 10 Ebrill. Cytunodd y pwyllgor i wahodd y chwe chwmni cyflenwi ynni mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd i roi tystiolaeth lafar ar natur ac effeithiolrwydd eu polisïau a'u prosiectau sydd â'r nod o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.  Cytunodd y pwyllgor hefyd i wahodd Golwg ar Ynni i gyflwyno'i ganfyddiadau diweddar ar brisio ynni yng Nghymru.  Mae pump o'r sefydliadau wedi derbyn gwahoddiad y pwyllgor i fod yn bresennol yn y sesiwn dystiolaeth ar 10 Ebrill. Ni all EDF energy fod yn bresennol. Gellir gweld cyflwyniadau ysgrifenedig y rhai a fydd yn bresennol yn yr atodiadau a ganlynl.

SC(3)-07-08 (p1) Atodiad A Golwg ar Ynni

SC(3)-07-08 (p1) Atodiad B Centrica plc (Nwy Prydain)

SC(3)-07-08 (p1) Atodiad C e-on (Powergen)

SC(3)-07-08 (p1) Atodiad D Scottish and Southern Energy (SWALEC)

SC(3)-07-08 (p1) Atodiad E Scottish Power

SC(3)-07-08 (p1) Atodiad F RWE n-power

Ar 13 Mawrth, cytunodd y pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Ofgem i wneud cais am ragor o fanylion ar gwmpas ac amserlen ei ymchwiliad i farchnadoedd trydan a nwy ar gyfer cartrefi a busnesau bach. Nid ydym wedi derbyn ymateb gan Ofgem ar hyn o bryd.

### Argymhelliad

Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig amgaeedig, ynghyd â'r dystiolaeth lafar a gyflwynir yn y cyfarfod ar 10 Ebrill ac i gytuno a ddylid cymryd camau pellach ar y mater hwn.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ebrill 2008